Cyngor Cymuned Llanbadrig

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd nos Fawrth, 20 Hydref 2020

Yn bresennol: Derek Owen (Cadeirydd), Elfed Jones, Enid Jones, Carys Davies, Tim Turner, Frank Egan, Dei Owens, Vic Ensor, y Cynghorydd Aled Jones, y Cynghorydd Richard Jones.

Ymddiheuriadau: Brian Potter, y Cynghorydd Richard Griffiths, Carli Evans-Thau (clarc).

1 Croeso

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Derek Owen a chroesawyd pawb i'r cyfarfod.

2 Datgan diddordeb

Dim

3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir. Fe'u cynigiwyd gan Tim Turner a'u heilio gan Frank Egan.

4 Materion yn codi o'r cofnodion

Ymdrinnir ag unrhyw faterion yn codi yng nghorff y cofnodion hyn.

5 Adroddiadau pwyllgor

5.1 **Cyllid a Phersonél**

5.1.1 a) Maes Parcio a Thoiledau. Mae cyfarfod ar wahân sy'n agored i'r cyngor cymuned llawn wedi'i alw ar gyfer 29 Hydref am 7:00pm. Bydd y clarc yn anfon y rhaglen a'r ddolen i Zoom.

b) Anfonwyd yr adroddiad Chwarterol a Thaliadau i aelodau o'r Pwyllgor Cyllid ac maent ar gael i bobl eu gweld.

c) Gwaith trwsio i'r clwb Ffitrwydd. Derbyniwyd eisoes ddau ddyfynbris. Rydym yn disgwyl am drydydd.

d) Saib rhent oherwydd Covid19. Cytunwyd rhoi saib rhent am fis arall i fenter y pentref. O ran y clwb ffitrwydd, mae angen i'r clwb gyflwyno adroddiad ariannol ac yna byddir yn ystyried eu cais yn y cyfarfod nesaf.

e) Iechyd a Diogelwch. Mae dwy fainc yn peri pryder. Y fainc gyntaf ar yr harbwr a'r brif fainc yn y fynwent. Bydd Elfed yn cysylltu â'r rhoddwyr cyn gwneud dim.

f) Y cyfnod atal byr yng nghyswllt Covid. Yn unol â rheoliadau, bydd y toiledau cyhoeddus yn cau o 6pm ddydd Gwener, 23 Hydref.

5.2 Parciau a Mannau Agored

a) Byddir yn ystyried symud y biniau ar y pafin ym Maes Parcio Penrhyn oherwydd nad oes lle i gadeiriau olwyn a choetsis babanod rhwng y biniau a'r ceir sydd wedi parcio yno. Cyfrifoldeb Cyngor Sir Ynys Môn yw biniau.

5.3 Pwyllgor yr Harbwr

Mae adroddiad ar wahân wedi'i gylchredeg gan Tim Turner.

a) Mae Swyddogion Rheoli Pwyllgor yr Harbwr wedi'u penodi am y cyfnod 2020/21. Mae Mr Jack Longman, a benodwyd ar ran y Cyngor, wedi nodi ei fod yn dymuno sefyll i lawr, gan adael y swydd hon yn wag i'r Cyngor Cymuned ei hystyried. Caiff gwasanaeth hir y Bambers ei gydnabod a'i nodi.

b) Addasiadau i'r Pier. Gohirir gwneud penderfyniad tra bod disgwyl yr adroddiadau cyn-gynllunio. Byddir yn trafod hyn yn y cyfarfod nesaf.

c) Y cyfnod atal byr yng nghyswllt Covid. Yn unol â rheoliadau, ystyrir nad yw defnyddio cychod pleser yn hanfodol. Bydd Tim Turner yn ysgrifennu at holl ddeiliaid angorfeydd cychod pleser i bwysleisio hyn.

d) Fel arwydd o ewyllys da, byddir yn gostwng ffioedd angorfeydd cychod pleser 20% yn nhymor 2021/22 i adlewyrchu'r cyfyngiadau a roddwyd yn sgil Covid-19. Ni fyddir yn ymestyn hyn i gychod gweithio. Pwyllgor yr Harbwr fydd yn ysgwyddo'r costau hyn yn hytrach na'r Cyngor Cymuned.

5.4 Pwyllgorau Allanol

Dim i adrodd arno

6 Cynllunio

6.1 Ceisiadau

a) Mae'r Clarc wedi anfon y ceisiadau a dderbyniwyd at yr holl aelodau a dylid e-bostio unrhyw sylwadau y dymunir eu gwneud yn uniongyrchol at y clarc.

b) Datblygiad Marine Terrace. Parhau mae pryderon ynghylch i) Parcio a ii) Y drychiad cefn yn cynnwys ffenestri. Mae'n ofynnol hefyd gael cadarnhad bod y gwaith ei hun sy'n mynd rhagddo yn dilyn cynlluniau cydnabyddedig perthnasol.

6.2 Penderfyniadau

Dim i adrodd arno

6.3 Gorfodi

Dim i adrodd arno

7 Gohebiaeth

Dim i adrodd arno

8 Wylfa Newydd

Cynhaliwyd cyfarfod Zoom ar y 13eg o Hydref gyda chynrychiolwyr Horizon, Cyngor Sir Ynys Môn a'r Cynghorau Cymuned. Disgrifiwyd y cyfarfod fel un 'Adeiladol a Llawn gwybodaeth'

Dywedwyd y byddai'n bosib iawn y byddai'r prosiect yn parhau, gyda thrydydd partïon credadwy'n dangos diddordeb. Yr hyn fyddai'n digwydd, fwy na thebyg, yw y byddai trydydd parti'n cymryd Horizon drosodd, gan gadw'r sylfaen technoleg a'r gwerth ychwanegol sydd eisoes wedi'i fuddsoddi yn y prosiect, unwaith y bydd Papur Gwyn Llywodraeth San Steffan a'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu wedi'u pasio,

Cadarnhawyd ymhellach y bydd pecyn iawndal ar gael i Lanbadrig pe na fyddai'r prosiect yn mynd yn ei flaen.

9 Teledu Cylch Cyfyng

Er gwaethaf rhyw gymaint o welliant, mae perfformiad cyffredinol y teledu cylch cyfyng yn parhau i fod yn anfoddhaol. Bydd CCTV Services Ltd o Landudno yn adolygu'r system gyda golwg ar ei chywiro a dechrau cytundeb cynnal a chadw parhaus.

10 Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

Fe'i dygwyd ymlaen i'r cyfarfod nesaf.

11 Unrhyw Fater Arall

Mae Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn yn trefnu cyfarfod ynghylch y pryderon am y parcio ym Mhorth Wen. Bydd y Cyngor Cymuned yn anfon e-bost at Gyngor Sir Ynys Môn yn nodi ac yn pwysleisio'r pryderon.

12 **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Tachwedd 17 am 7:00pm

Daeth y cyfarfod i ben am 8:45 pm

Llofnodwyd
Derek Owen
Cadeirydd, Cyngor Cymuned Llanbadrig